# Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) ar Lygredd Amaethyddol

# Cofnodion

**Teitl y Cyfarfod:**

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 25 Ionawr 2021

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Geraint Llyr Davies, CNC

Dennis Matheson, TFA

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Creighton Harvey, FfPSG

Bob Vaughan, CNC

Sarah Hetherington, CNC

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Marc Williams, CNC

Ruth Johnston, CNC

Fraser McAuley, CLA

James Ruggeri, HCC

Edward Davies, CNC

Bronwen Martin, CNC

Bernard Griffiths, FUW

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru

Spencer Conlon, LlC

Andrew Chambers, LlC

Nichola Salter, CNC

Shane Thomas, FfPSG

Jamie McCoy, AHDB

Geraint Hamer, LlC

Adriana Kiss, LlC

Liz Franks, Hafren Dyfrdwy

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

Jeremy Walters, CNC (Eitem 6 yn unig)

**Ysgrifenyddiaeth:**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Kate Snow, United Utilities

Matt Lowe, CNC

Katy Simmons, CNC

Delyth Lewis-Jones, AHDB

Einir Williams, CFf

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau.

2. Croesawyd Bernard Griffiths, FUW yn ôl i'r grŵp gan y Cadeirydd. Cyflwynwyd Bronwen Martin, CNC sef Ysgrifenyddiaeth newydd y grŵp gan y Cadeirydd. Rhoddodd Bronwen grynodeb byr o'i chefndir i'r grŵp.

3. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.

    - D.S.: Roedd yr holl aelodau o’r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datgan buddiant, ond roedd disgwyl iddynt hefyd ddatgan os oedd ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

## Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf ac unrhyw faterion sy'n codi

4. Adolygodd y Grŵp y cofnodion o'r cyfarfod ar 14 Rhagfyr 2020, a chymeradwyo eu bod yn gofnod cywir.

5. Adolygodd y Cadeirydd y pwyntiau gweithredu, a gwnaed y sylwadau a ganlyn:

    - Rhagfyr PG07: Nodi dalgylchoedd â blaenoriaeth ac argymhellion â blaenoriaeth ar gyfer yr ardaloedd hynny cyn cyfarfod mis Ionawr (CNC).

        - *Roedd hon yn eitem ar agenda'r cyfarfod heddiw, a byddai'n cael ei thrafod â swyddogion Cyswllt Ffermio (Eitem 4).*

    - Rhagfyr PG10: Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu Safon Dŵr (Ed Davies, CNC).

        - *Dywedodd Ed y byddai hyn yn cael ei weithredu yn ystod yr wythnos i ddod ac y byddai'n cysylltu â phawb dan sylw yn fuan.*

    - Rhagfyr PG11: Gwahodd cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru i'r is-grŵp i drafod y Cynllun Aer Glân a'r Rheoliadau Dŵr posibl.

        - *Awgrymodd Marc Williams, CNC y dylid gofyn i Simon Bareham, CNC drafod y Cynllun Aer Glân, a gwahodd cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru i ymuno â'r cyfarfod nesaf. Dywedodd Nichola Salter fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch y Mesur Aer Glân ar hyn o bryd, a bod angen cyflwyno sylwadau erbyn 7 Ebrill 2021 – dyma'r ddolen i dudalen ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:*

          https://llyw.cymru/papur-gwyn-ar-fil-aer-glan-cymru

***PG01 Ionawr: Marc Williams, CNC i wahodd Simon Bareham, CNC a chynrychiolydd o Lywodraeth Cymru i'r cyfarfod nesaf i drafod y Cynllun Aer Glân.***

- Rhagfyr PG12: KS i gylchredeg paragraff gan yr adran gyfathrebu i egluro aelodaeth a rôl is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

    - *Nid oedd Katy Simmons, CNC yn gallu ymuno â'r cyfarfod heddiw ond dywedodd Ed Davies, CNC y byddai hyn yn cael ei weithredu cyn y cyfarfod nesaf.*

- Rhagfyr PG13: KS i gysylltu â'r AHDB i weld pa waith a oedd eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn.

    - *Soniodd Ed fod Katy wedi anfon neges e-bost i'r AHDB i drafod y gwaith ymgysylltu yr oedd wedi'i wneud gyda ffermwyr, ac i ddeall pa ddull cyfathrebu a ffefrir, er mwyn sicrhau ein bod yn cysylltu yn y ffordd briodol. Dywedodd Jamie McCoy, AHDB fod gwaith ymchwil wedi cael ei wneud ynghylch ymgysylltiad ffermwyr a sut i ysbrydoli newid, ac y byddai'n hapus i helpu.*

- Rhagfyr PG14: ZH i baratoi darn ar gyfer colofn yr NFU yn esbonio cynlluniau'r is-grŵp am y flwyddyn.

  - *Roedd hyn yn eitem ar agenda y cyfarfod heddiw (Eitem 5).*

- Rhagfyr PG15: Nodi pynciau ar gyfer y misoedd i ddod a pharatoi erthyglau i'w dosbarthu (PAWB).

  - *Roedd hyn yn eitem ar agenda y cyfarfod heddiw (Eitem 5).*

- Rhagfyr PG16: Yr wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad ar Ganllawiau Sgrinio Amonia yng nghyfarfod mis Ionawr.

  - *Byddai Jeremy Walters, CNC yn ymuno â'r cyfarfod heddiw i roi'r wybodaeth ddiweddaraf (Eitem 6).*

- PG Tachwedd: SJ i rannu astudiaeth achos o brosiectau Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog a hau cnwd o dan indrawn.

  - *Soniodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, nad oedd hyn wedi symud yn ei flaen, er ei bod yn debygol y byddai rhannu gwybodaeth yn rhan o'r gwaith. Roedd rhai o aelodau'r Is-grŵp hefyd yn eistedd ar y grŵp rhanddeiliaid ar gyfer Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog, ac roedd cyfarfod rhanddeiliaid wedi'i gynnal yr wythnos diwethaf. Roedd yn dal i fod yn ddyddiau cynnar i'r prosiect hau cnwd o dan indrawn yng Ngogledd Cymru, ac roedd y prosiect yn dal i geisio dod o hyd i ffermwr i wneud y gwaith hwnnw. Cytunwyd y dylid nodi bod y PG hwn wedi'i gwblhau ac y byddai diweddariadau perthnasol yn cael eu cyfleu i'r grŵp yn y dyfodol.*

    *Trafododd y Cadeirydd y ffaith fod nifer o ffermwyr yng Ngogledd Cymru yn hau cnwd o dan indrawn. Soniodd Geraint Llyr Davies, CNC, fod yna ffermwr yn Wrecsam a oedd wedi hau cnwd o dan ei indrawn y llynedd, ac wedi cael llwyddiant mawr, ac y byddai'n werth gofyn iddo a fyddai'n barod i gydweithio â'r grŵp. Dywedodd Sarah Jones*, *Dŵr Cymru, y byddai'n ddefnyddiol rhannu manylion cyswllt. Soniodd Sarah Hetherington, CNC, fod yna grŵp Agrisgôp ar y Troddi a oedd wedi bod yn ymchwilio i hyn. Dywedodd Nichola Salter, CNC, hefyd fod gwaith prosiect hau cnwd o dan indrawn y Troddi wedi'i wneud trwy gynllun Cyswllt Ffermio, a bod Sefydliad Gwy ac Wysg hefyd wedi gwneud llawer o waith yn Swydd Henffordd, ac efallai y byddai'n werth edrych ar y 'gwersi a ddysgwyd'.*

***PG02 Ionawr: Geraint Llyr Davies, CNC i rannu manylion cyswllt y ffermwr yn Wrecsam â Sarah Jones, Dŵr Cymru***.

- PG Tachwedd: RJ i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynlluniau Rheoli Basn Afon i'r grŵp.

  - *Rhoddodd Ed ychydig o wybodaeth i'r grŵp cyn y cyfarfod. Byddai hyn hefyd yn cael ei drafod heddiw gan Ed a Ruth (Eitem 4).*

- Gorffennaf PG04: RV i ddal i fyny â KS ynghylch cydymffurfedd ar ffermydd cynrychiadol yn nalgylch Dyfrdwy.

  - *Cysylltodd Marc â Kate Snow, United Utilities yr wythnos diwethaf i drefnu cyfarfod i drafod unrhyw brosiectau ar afon Dyfrdwy yn y dyfodol ac i weld a fyddai United Utilities yn barod i ddarparu cyllid.*

***PG03 Ionawr: Marc Williams, CNC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am ganlyniad y cyfarfod a oedd ar y gweill â Kate Snow, United Utilities.***

- Gorffennaf PG11: SC i anfon gwybodaeth at MW i'w chylchredeg am wastraff plastig.

  - *Soniodd y Cadeirydd fod yna bryder cyffredinol ynghylch gwastraff plastig, a bod yna gwmni newydd yn casglu o ffermydd yng Nghymru. Soniodd Geraint Llyr Davies, CNC fod Birch Farm Plastics wedi dechrau casglu o ffermydd eto, a oedd yn gam cadarnhaol ymlaen. Dywedodd Creighton Harvey, CCP fod gan rifyn diweddaraf cylchgrawn yr NFU 'Farming Wales', erthygl ynglŷn â Birch Plastics yn dechrau casglu unwaith eto. Soniodd Sarah Hetherington, CNC hefyd am erthygl yng nghylchgrawn 'Gwlad' ym mis Rhagfyr 2020 a oedd yn trafod plastig ar ffermydd, a oedd wedi cael ei godi gyda chyd-weithwyr gwastraff CNC, a byddai yna ddiweddariad yn y dyfodol ynghylch y llwybr gwaredu.*

***PG04 Ionawr: Ed Davies, CNC i edrych i mewn i wastraff plastig a choladu gwybodaeth i'w hanfon i'r grŵp.***

- Rhagfyr PG08: Casglu diffiniadau ar gyfer categorïau System Ymateb i Ddigwyddiadau Cymru (WIRS) a'u cylchredeg (MW).

  - *Roedd Marc wedi ymchwilio i hyn ac wedi darparu gwybodaeth yn y papur diweddaru. Nid oedd yna ddiffiniadau penodol ar gyfer pob un o'r categorïau o wir achosion, a'r swyddogion oedd yn pwyso a mesur y gwir achosion yn seiliedig ar eu tystiolaeth eu hunain yn sgil mynd i'r digwyddiad a chynnal eu hymchwiliad, gan ystyried ffynhonnell ac achos y digwyddiad.*

  - *Amlinellodd Marc y ffaith bod System Ymateb i Ddigwyddiadau Cymru (WIRS) y mae CNC yn ei defnyddio wedi'i chynllunio'n wreiddiol ar gyfer y maes gwir achosion, a hynny ar gyfer y Tîm Rheoleiddio Diwydiannol. Holodd Chris Mills a ddylid diweddaru'r system gan ei bod yn seiliedig ar drefn reoleiddio wahanol, a fyddai'n caniatáu ar gyfer cofnodi digwyddiadau amaethyddol yn gywir. Cadarnhaodd Marc fod y system wedi'i haddasu i gynnwys rhai meysydd ychwanegol, ond mai mater i'r swyddog unigol a oedd yn gweithio ar yr ymchwiliad, oedd penderfynu beth oedd y gwir achos, er enghraifft 'methiant o ran cynnal a chadw' neu 'fethiant o ran rheoli'. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y system hon yn diwallu anghenion y tîm amaethyddol. Eglurodd Marc fod sawl maes ar gael i'r swyddogion eu defnyddio, ond ar hyn o bryd nid oedd unrhyw ddiffiniadau yn cael eu darparu i helpu i benderfynu, er enghraifft, beth oedd 'methiant o ran cynnal a chadw'. Gobeithio yn y dyfodol y byddai modd datblygu diffiniadau neu fwy o fanylion o ran y 'mathau' o fethiannau yn y categorïau.*

6. Gofynnodd Ed a oedd yna unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynglŷn â'r pwyntiau gweithredu; ni thrafodwyd unrhyw sylwadau newydd.

7. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r grŵp yn gweithio mewn ffordd newydd bellach, sef ar ffurf papur diweddaru. Diben y papur diweddaru oedd rhoi gwybod i'r aelodau am brosiectau parhaus a diweddariadau, a byddai'n cael ei gyhoeddi cyn y cyfarfodydd er mwyn ei drafod yn gryno yn y cyfarfodydd hynny. Pe byddai angen mwy o graffu ar unrhyw un o'r pynciau yn y papur diweddaru, dylid tynnu sylw at hynny cyn y cyfarfod nesaf er mwyn gallu ei gynnwys ar yr agenda a dyrannu amser priodol iddo. Nod y dull newydd hwn oedd helpu'r cyfarfodydd i ganolbwyntio mwy ar weithredu a bod yn fwy cynhyrchiol. Cytunodd y grŵp ar y dull papur diweddaru newydd.

8. Gofynnodd Sarah Jones, DCWW am i'r papur diweddaru gael ei gylchredeg wythnos cyn y cyfarfod fel y gellid mynd ar drywydd pwyntiau a'u gweithredu cyn y cyfarfod. Cytunodd Ed a Bronwen fod hyn yn rhesymol. Esboniodd Sarah Hetherington, pe byddai'r diweddariadau'n cael eu cyflwyno i'r aelodau wythnos yn gynt, yna byddai angen i'r aelodai gwblhau'r camau gweithredu a chyflwyno eu hymatebion yn gynt.

9. Holodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, ynghylch y data ar gyfer digwyddiadau llygredd, a gofynnodd faint o waith dadansoddi oedd yn cael ei wneud o ran y data ar gyfer llygredd amaethyddol, cadernid y data a'r modd yr oedd y dull o fesur y data wedi newid dros y blynyddoedd. Er mwyn atal llygredd amaethyddol, roedd angen gwneud y defnydd gorau o'r data a oedd eisoes gael ar gyfer digwyddiadau llygredd y gorffennol. Eglurodd Marc fod yr holl ddata a oedd gan CNC ynglŷn â digwyddiadau llygredd yn dod o ddigwyddiadau yr oedd y cyhoedd yn rhoi gwybod i CNC amdanynt, a bod y data'n cael eu categoreiddio gan y system trwy NIRS a WIRS. Yna roedd swyddogion CNC yn cadarnhau'r data trwy fynd ati i edrych a oedd y digwyddiad wedi digwydd ac ymhle. Roedd dadansoddiadau ystadegol wedi cael eu gwneud, ac yn y gorffennol cawsant eu hanfon at ystadegydd i weld a oedd yna unrhyw gydberthynas, yn enwedig o ran y tywydd a phatrymau tywydd. Roedd yn anodd cymharu Cymru gyfan, felly gwnaed dadansoddiad penodol ar gyfer Sir Gaerfyrddin, ond ni archwiliwyd hyn ymhellach oherwydd diffyg adnoddau ar y pryd. Roedd y data mewn graffiau cyfredol yn dangos nifer y digwyddiadau a gadarnhawyd y rhoddwyd gwybod i CNC amdanynt. Awgrymodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru y gellid gwneud rhagor, oherwydd yr elfen sylfaenol er mwyn atal digwyddiadau yn y dyfodol oedd dysgu rhagor am ddigwyddiadau'r gorffennol a digwyddiadau cyfredol. Roedd Zoe a Marc yn cytuno ei bod yn her barhaus, a chroesawyd unrhyw wybodaeth neu awgrymiadau ynglŷn â'r pwnc hwn. Awgrymodd Chris y dylid cael cyfarfod â Marc i ddatblygu syniadau ac i drafod ymhellach.

***PG05 Ionawr: Marc Williams, CNC a Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru i drafod data digwyddiadau llygredd ymhellach***.

10. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yna unrhyw ddiweddariadau ar y Prosiect Llaeth, a gofynnodd beth oedd y swyddogion yn ei wneud os nad oeddent yn ymweld â ffermydd. Soniodd Marc ei fod wedi siarad â Matt Lowe, CNC a'u bod yn cysylltu â ffermwyr, gan ddarparu cymorth a diweddaru adroddiadau. Roedd Creighton, Marc a Bob yn cael cyfarfod yn ddiweddarach heddiw, a allai orgyffwrdd â'r pwnc hwn; byddent yn rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol â'r grŵp.

11. Gofynnodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru am ddiweddariad ynghylch yr ystadegau ar gyfer llygredd amaethyddol, a gofynnodd pryd yr oedd y ffigurau terfynol ar gyfer 2020 yn debygol o gael eu darparu. Roedd Marc wedi darparu graff yn y papur diweddaru a oedd yn cynnwys yr holl ddata hyd ddiwedd 2020, ac eithrio ychydig o adroddiadau a oedd yn dal i fod yn 'agored' o fis Rhagfyr 2020. Roedd CNC yn gobeithio cael y ffigurau diweddaraf yn ystod yr wythnosau nesaf ar gyfer blwyddyn 2020 i gyd.

## Eitem 3 Argymhellion/Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

12. Rhannodd Marc Williams, CNC ei sgrin fel y gellid trafod pob Argymhelliad/Cam Gweithredu â Blaenoriaeth, gan nodi'n benodol yr aelodau arweiniol a chymorth a'r amserlen i gyflawni'r camau gweithredu hyn. Cadarnhaodd Marc y byddai'r daenlen hon yn ddogfen fyw a fyddai'n cael ei diweddaru a'i diwygio, ac y byddai camau gweithredu yn cael eu hychwanegu ati dros amser.

**13. Argymhelliad 3.1:** Bod Fforwm Rheoli Tir Cymru yn comisiynu dadansoddiad pellach o wir achos llygredd amaethyddol gan weithio gydag ystod ehangach o randdeiliaid. Byddai'r dadansoddiad manwl hwn o fudd i waith y grŵp yn y tymor hwy trwy barhau i feithrin dealltwriaeth gyffredin o achosion uniongyrchol ac anuniongyrchol llygredd.

**Camau Gweithredu:**

- Cyflawni'r Prosiect Llwytho Maethynnau: roedd manyleb wedi cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru, ac roedd wedi ei hanfon at ei his-gontractwr, a oedd wedi darparu dyfynbris i gyflawni'r gwaith. Roedd y gwaith hwn wedi'i rannu'n dri phecyn; Pecyn Gwaith 1, Pecyn Gwaith 2 a Phecyn Gwaith 3. Ar hyn o bryd roedd Llywodraeth Cymru yn edrych i weld a oedd cyllid ar gael ar gyfer Pecynnau Gwaith 1 a 2, ond nid oedd CNC wedi cael diweddariad eto. Pe na fyddai cyllid ar gael ar gyfer y gwaith hwn, byddai'r posibilrwydd o ariannu'r gwaith trwy gyflwyno cais gorbenion heb eu hariannu yn cael ei archwilio.

***PG06 Ionawr: Marc Williams, CNC i anfon yr wybodaeth am y cais at Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru er mwyn iddo roi sylw i'r mater a darparu diweddariad o ran Polisïau Pridd.***

- Coladu Prosiectau Ymchwil a Datblygu ansawdd dŵr sydd wedi archwilio gwir achosion llygredd amaethyddol: Marc Williams a Geraint Hamer i gwrdd a thrafod y gwaith hwn.

- Gwaith prosiect i ddeall graddfa lawn y gwir achosion: gofynnodd y Cadeirydd a oedd hyn yn gysylltiedig â'r gwaith casglu data, ac a oedd angen archwilio ymhellach, er enghraifft deall y ffynonellau amaethyddol 'eraill' a oedd yn cael eu defnyddio gan y swyddogion a fyddai'n ymchwilio i ddigwyddiadau llygredd amaethyddol. Soniodd Marc fod yna rai agweddau 'anhysbys', ac efallai fod angen coladu'r materion a'r gwir achosion gwahanol. Trafododd Creighton Harvey, FfPSG y ffaith bod hyn yn mynd yn ôl at y mater blaenorol, sef faint o dir oedd ar gael a faint o faethynnau a oedd yn cael eu cynhyrchu, edrych ar y ffigurau i weld lle'r oedd y digwyddiadau wedi'u nodi, ac yna edrych ai'r achos

oedd seilwaith diffygiol, hen seilwaith nad yw'n cydymffurfio â rheoliadau modern, neu reolaeth wael. Cytunwyd y dylid defnyddio amser, ymdrech ac adnoddau i gyflawni'r Prosiect Llwytho Maethynnau. Soniodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru y dylid hefyd ystyried dulliau rheoli'r defnydd o dir ac erydiad pridd, a hynny oherwydd y dystiolaeth gynyddol a oedd yn awgrymu bod cynnydd mewn llwytho ffosffadau yn gysylltiedig â chynnydd o ran erydiad pridd. Soniodd Marc fod Ed yn rhoi sylw i'r posibilrwydd o ddefnyddio LiDAR i asesu risgiau rheoli tir ac erydiad pridd.

***PG07 Ionawr: Marc Williams, CNC i grwpio'r gwir achosion yn y Prosiect Llwytho Maethynnau.***

- Archwilio'r llinell sylfaen o ran newid ymddygiad neu'r rhwystrau i newid ymddygiad: roedd swyddogion Cyswllt Ffermio wedi gwneud rhywfaint o waith ar hyn ond roeddent am ddod â hyn i'r grŵp er mwyn ei symud yn ei flaen. Dywedodd Jamie McCoy, AHDB fod gan y Bwrdd wybodaeth yn ymwneud â newid ymddygiad ac y byddai'n barod i gefnogi Cyswllt Ffermio i gyflawni'r weithred hon.

- Dadansoddi'r ymgysylltiad â ffermwyr a pherchnogion tir yn nalgylchoedd Cyswllt Ffermio: archwiliwyd hyn gan Cyswllt Ffermio i ddechrau mewn dau ddalgylch.

***PG08 Ionawr: Marc Williams, CNC ac Ed Davies, CNC i gysylltu â Lee Price, Cyswllt Ffermio i archwilio'r posibilrwydd o gymhwyso hyn i ddalgylchoedd eraill***

- Gwaith prosiect dalgylch ar afon Dyfrdwy i gasglu tystiolaeth o wir achosion: roedd Marc a Kate Snow, United Utilities yn bwriadu cwrdd i archwilio hyn ymhellach. Ymgymerwyd â phrosiectau tebyg yn Lloegr gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, felly byddai'n dda deall yr hyn yr oedd yr Asiantaeth yn ei gynnig ac yr hoffai ei gael o'r prosiectau hyn.

- Casglu rhestr o'r holl faterion a gasglwyd o'r Prosiect Llaeth: Roedd Marc wedi siarad â Matt Lowe, CNC a gofyn a allai rhai o'r Swyddogion Llaeth goladu'r materion yr oeddent yn dod ar eu traws, ac yna gweld sut y byddai modd mynd i'r afael â nhw. Awgrymodd Nichola Salter efallai fod angen coladu pob mater, nid yn unig y rhai a oedd yn gysylltiedig â'r Prosiect Llaeth, er enghraifft, roedd swyddogion yn edrych ar unedau dofednod ac unedau moch yng Nghanolbarth Cymru.

14. **Argymhelliad 4.7:** Yn seiliedig ar ddadansoddiad risg clir wedi'i baratoi ymlaen llaw, ac yng nghyd-destun adolygiad integredig ehangach o'r dirwedd reoliadol, dylai'r Is-grŵp, Llywodraeth Cymru a CNC archwilio priodoldeb Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer ffermio dwys, a hynny'n fwyaf tebygol ar gyfer unedau llaeth mwy o faint. Dylid ystyried elfennau o'r drefn bresennol ar gyfer moch a dofednod, ynghyd â mesurau newydd yn ôl yr angen.

    **Camau Gweithredu:**

    - Datblygu cynlluniau newydd ac adolygu'r fframwaith rheoleiddio: amlinellodd Marc y ffaith bod gan Loegr grŵp Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, ac

efallai fod angen archwilio hynny yng nghyd-destun Cymru. Soniodd Creighton fod yna bryder ynghylch y buddion posibl yn sgil dull Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer ffermio llaeth, a nododd y byddai'n bwysig bod y cynnydd yn y craffu ar lefel briodol a realistig. Roedd angen trafodaeth ac ymchwil er mwyn penderfynu ar y lefel briodol i'w gosod o ran nifer yr anifeiliaid yn y cynllun. Gofynnodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru am eglurhad o ran a oedd CNC yn edrych ar Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar hyn o bryd. Cadarnhaodd Nichola Salter, CNC nad oedd CNC yn edrych ar Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar hyn o bryd, ond bod yna frîff gwylio ar yr hyn yr oedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei wneud, a oedd wedyn yn cael ei fwydo yn ôl i Lywodraeth Cymru i'w adolygu.

15. **Argymhelliad 4.12:** Yn ehangach, roedd angen i'r is-grŵp asesu cyfraniad priddoedd at ansawdd dŵr gwael, a'r modd o fynd i'r afael â'r mater hwn, gan dynnu ar y sylfaen dystiolaeth sylweddol a ddatblygwyd yn sgil proses y Cynllun Rheoli Basn Afon.

**Camau Gweithredu:**

- Roedd angen tystiolaeth i nodi'r risg o golli pridd, nad oedd ar hyn o bryd yn rhan o adroddiad Categorïau Tir Amaethyddol Llywodraeth Cymru. Soniodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru fod colli pridd yn bwnc pwysig o ran siltio, sy'n effeithio ar bysgod. Awgrymodd Chris y dylid adolygu'r ymchwil bresennol ynghylch siltio a'r effeithiau ar bysgod ar ffurf adolygiad llenyddiaeth. Atgoffodd Sarah Hetherington y grŵp fod gwaith ar waddodi wedi'i wneud eisoes.

***PG09 Ionawr: Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru i fynd ar drywydd hyn a throsglwyddo gwybodaeth i Ed Davies a Bronwen Martin, CNC***

***PG10 Ionawr: Sarah Hetherington, CNC i ddarparu gwybodaeth am waddodi i Ed Davies a Bronwen Martin, CNC.***

- Rhannu'r gwaith briffio/cwmpasu o ran Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog: rhoddodd Sarah Jones, DCWW amlinelliad byr o'r gwaith hwn.

***PG11 Ionawr: Sarah Jones, DCWW i fynd ar drywydd hyn a rhoi diweddariad ar Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog i'r grŵp.***

Amlinellodd Dennis Matheson y mater o ran coed a ffermwyr tenant, ac esboniodd fod yr holl goed yn eiddo i'r landlord ac na all tenant blannu coed heb ganiatâd.

- Ymchwilio i dreialon hau cnwd o dan indrawn: Sarah Jones, DCWW i ddarparu canfyddiadau a gwybodaeth er mwyn helpu i symud hyn yn ei flaen ar lefel Cymru. Soniodd Ed y byddai'n werth darparu gwybodaeth am yr ymgysylltiad ac unrhyw broblemau a gawsant, er mwyn ei defnyddio ar gyfer ymarfer 'gwersi a ddysgwyd'.

***PG12 Ionawr: Sarah Jones, DCWW i ddarparu gwybodaeth i'r grŵp am y treialon hau cnwd o dan indrawn.***

- Archwilio pecynnau modelu: dywedodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru fod Afonydd Cymru yn defnyddio Scimap ar gyfer ymweliadau â ffermydd amaethyddol ac i ddarparu cyngor ar atal llygredd. Gofynnodd Marc a oedd modd archwilio hyn er mwyn darparu pecynnau modelu i ffermwyr eu defnyddio. Byddai Chris Mills yn rhannu ei brofiad o ddefnyddio'r offeryn penodol hwn, a'i werth, â'r grŵp. Soniodd Nichola Salter iddi gael sgwrs ag Arweinydd Tîm yr Amgylchedd ynghylch Dalgylch Cyfle a'r modd y gellir defnyddio offer mapio i helpu i gyfeirio ymdrechion. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cynnal gweminar ynghylch offer mapio er mwyn rhannu gwybodaeth. Awgrymodd Sarah Hetherington fod yna gyfle i'r dalgylchoedd integreiddio'r portffolios o ran Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Gofynnodd Geraint Llyr Davies a oedd potensial i gysylltu hyn â gwaith Afon Dyfrdwy LIFE a'r gwaith gan United Utilities er mwyn cyfyngu ar y costau ychwanegol.

***PG13 Ionawr: Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru i rannu gwybodaeth â'r grŵp am ei brofiad o ddefnyddio pecynnau modelu***

***PG14 Ionawr: Nichola Salter, CNC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ynghylch offer mapio a'r gwaith o ran y Dalgylchoedd Posibl.***

***PG15 Ionawr: Marc Williams, CNC i drafod â Kate Snow, United Utilities y posibilrwydd o gysylltu data a gwybodaeth ymchwil, ac yna rhoi diweddariad i'r grŵp.***

- Astudiaeth o'r graddau y defnyddir cnydau bio-ynni yng Nghymru, a'r modd y cânt eu defnyddio: Esboniodd Marc fod hyn yn un o'r 'anghenion tystiolaeth' a amlinellir yn SoNaRR2020, ac y byddai'n cael ei archwilio ymhellach. Y nod oedd archwilio'r materion sylfaenol o ran tyfu indrawn ar gyfer bio-ynni a'r risgiau o ran colli pridd. Trafododd y grŵp y ffynonellau data prin a oedd ar gael i hwyluso'r weithred hon.

***PG16 Ionawr: Bob Vaughan, CNC ac Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru i drafod cnydau bio-ynni ymhellach, a rhoi adborth i'r grŵp.***

- Archwilio unrhyw raglenni tystiolaeth ym Mholisi Pridd Llywodraeth Cymru i gyflawni'r gwaith hwn: soniodd Marc fod llawer o waith eisoes wedi'i wneud a bod adroddiadau wedi'u llunio. CNC a Llywodraeth Cymru i gael trafodaeth â'r timau polisi i goladu'r dystiolaeth fel ei bod ar gael i ni gyfeirio ati.

***PG17 Ionawr: Bob Vaughan a Marc Williams, CNC i drafod rhaglenni tystiolaeth ymhellach cyn i Bob gael ei gyfarfod â thîm Priddoedd Llywodraeth Cymru.***

Trafododd Geraint Llyr Davies, CNC iechyd pridd mewn perthynas â chynlluniau Maethynnau Pridd, a'r angen i fwrw ymlaen a datblygu hyn ymhellach. Cytunodd y grŵp y gallai hyn gael ei drafod â Llywodraeth Cymru hefyd.

16. **Argymhelliad 6.1:** Yn y tymor hwy, datblygu mecanweithiau posibl i annog ymgysylltiad â gwasanaethau cynghori, yn ogystal â datblygiad proffesiynol parhaus a allai gyd-fynd â chyfleoedd megis datblygu Brand Cymru neu ennill cydnabyddiaeth.

**Camau Gweithredu:**

- Gwerthoedd brand cynaliadwy: rhoddodd Sarah Hetherington ddiweddariad byr yn seiliedig ar gyfarfod â Pholisi Bwyd Llywodraeth Cymru yr wythnos diwethaf. Gwnaed rhai newidiadau i'r rhaglen honno lle'r oedd yr elfen Gwerthoedd Brand Cynaliadwy bellach wedi'i symud draw i'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Papur Gwyn Amaethyddol. Trafododd Bob gyfranogiad CNC yng Nghynhadledd Bwyd diwedd blwyddyn Adran Polisi Bwyd Llywodraeth Cymru yng Nghasnewydd, a hynny i gynyddu ymgysylltiad â chynhyrchwyr a chyflenwyr. Trafododd y grŵp gynllun y Tractor Coch a safonau amgylcheddol yn fyr. Soniodd y Cadeirydd fod cynllun y Tractor Coch yn cynnal ymgynghoriad ar hyn o bryd ac efallai y byddai aelodau'r grŵp yn dymuno bwydo i mewn i hynny; y dyddiad cau oedd 5 Mawrth 2021:

  https://assurance.redtractor.org.uk/red-tractor-review-2021

***PG18 Ionawr: Zoe Henderson, CNC i barhau i geisio cyfathrebu â swyddogion cynllun y Tractor Coch a'u gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol.***

Trafododd Sarah Hetherington a Nichola Salter y gwaith o ddiweddaru a chysoni safonau i helpu ffermwyr.

***PG19 Ionawr: Gweithio gyda chynllun y Tractor Coch, Safonau Dŵr a'r Cynllun Gwarant Fferm Da Byw i gysoni safonau ac i helpu i roi'r gorau i ddrysu ffermwyr. (Pawb)***

- Diweddariad ac adborth ar Siop Sgiliau Datblygiad Proffesiynol Parhaus Lantra: roedd Marc wedi bod mewn cysylltiad â Kevin Taylor, Lantra i ddarparu gwybodaeth i'r grŵp ond roedd yn aros am ymateb. Soniodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru ei bod yn bwysig deall y modd yr oedd hyn i gyd yn cysylltu â'i gilydd, fel nad oedd y grŵp yn ailadrodd gwaith a oedd yn cael ei ddatblygu gan eraill. Nododd Rachel fod NFU Cymru yn mynd yn ôl at ffynonellau megis Trawsgydymffurfio, y Cod Ymarfer Amaethyddol Da, ac ati, i gael cyngor, a darparodd ddolen i'r grŵp ar gyfer adroddiad y cyfeirir ato yn y Papur Gwyn Amaethyddol:

  https://phw.nhs.wales/news/farmers-health-and-wellbeing-needs-to-be-at-the-centre-of-brexit-response-new-report/

- Pecynnau hyfforddi neu waith i bob sefydliad er mwyn darparu negeseuon a chyngor cyson i ffermwyr: Gofynnodd Marc i aelodau'r grŵp rannu eu meddyliau ac efallai helpu i goladu'r wybodaeth a'r dogfennau a oedd yn cael eu darparu i ffermwyr er mwyn ymchwilio i weld a oedd y negeseuon yn gyson. Soniodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru nad yw bob amser yn ymwneud â 'beth' ond yn hytrach 'sut' y mae'r negeseuon hyn yn cael eu cyflwyno. Soniodd Rachel Lewis-Davies fod NFU Cymru yn eirioli dros Wasanaeth Cysylltwyr Fferm CNC i efelychu tîm Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm Llywodraeth Cymru yr oedd y gymuned ffermio yn ymddiried ynddo, ac ategodd fod yna gyfle gwirioneddol i CNC edrych ar y model hwn.

***PG20 Ionawr: Bronwen Martin, CNC i siarad ag aelodau'r grŵp a chasglu gwybodaeth i ddarganfod pa wybodaeth a chyngor a oedd yn cael eu darparu, a sut yr oeddent yn cael eu darparu.***

17. Soniodd Marc fod yna gamau gweithredu eraill ar y daenlen Argymhellion â Blaenoriaeth, ond byddai'n anfon y daenlen at yr aelodau er mwyn iddynt ei hadolygu, gwneud newidiadau ac awgrymu ffyrdd o fwrw ymlaen â'r camau.

***PG21 Ionawr: Marc Williams, CNC i anfon y daenlen Argymhellion â Blaenoriaeth at yr aelodau.***

## Eitem 4 Adolygiad o'r Dalgylchoedd a Dargedir gan Cyswllt Ffermio

18. Soniodd Ed fod swyddogion CNC yn adolygu'r dalgylchoedd yr oedd Cyswllt Ffermio yn eu targedu, ond eu bod yn ansicr sut y gellid cyflawni hyn o ystyried yr amgylchiadau presennol a'r cyfyngiadau o ran COVID-19. Trafododd y grŵp a ddylid parhau â'r un dull trwy ddarparu rhestr o ddalgylchoedd â blaenoriaeth i Cyswllt Ffermio, neu a ddylid gofyn i Cyswllt Ffermio ddilyn dull gweithredu ar gyfer Cymru gyfan, wedi'i dargedu trwy ei weminarau a'i bodlediadau, gan nodi pynciau penodol i fynd i'r afael o ddifrif â nhw. Soniodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru ei bod yn anodd dweud pa ddull oedd yn cael ei ffafrio gan fod ffermwyr yn amrywio o fusnes i fusnes, ond bod NFU Cymru yn parhau i gynnal digwyddiadau rhithwir a oedd yn gweithio i rai ac nid i eraill. Dywedodd Rachel fod yna le i negeseuon lefel uchel cenedlaethol yn ogystal â dalgylchoedd wedi'u targedu, ond ei bod yn bwysig dechrau'r ymgysylltiad cychwynnol yn yr ardaloedd hyn. Trafododd Ed a Rachel a oedd ffermwyr yn debygol o gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithwir a faint fyddai'n dymuno trafod y pynciau.

19. Soniodd Nichola Salter, CNC fod Cyswllt Ffermio wedi cynnal cyfres o weminarau yng Nghanolbarth Cymru mewn ymateb i ddiddordeb yn y wasg mewn ffermio dofednod, ac y cafwyd nifer da o bobl yn bresennol ar y noson. Roedd y sesiynau hefyd yn cael eu recordio ar gyfer y rhai nad oeddent yn gallu bod yn bresennol ac er mwyn cael mynediad atynt wedi hynny.

20. Soniodd Geraint Llyr Davies, CNC am ei brofiad o geisio cael ffermwyr i ymrwymo i gyfarfodydd Zoom un i un i drafod materion. Nid oedd rhai ffermwyr yn hapus i gwrdd yn y modd hwn ac roeddent yn colli cyfle gwych, felly roedd angen dull a oedd yn ystyriol o ffermwyr er mwyn cysylltu â nhw. Trafododd Ed a Geraint botensial a hyblygrwydd cyfarfodydd ar-lein, ac awgrymwyd efallai y dylai'r genhedlaeth iau helpu i annog ffermwyr i gymryd rhan. Dywedodd Bernard Griffiths, FUW y cafwyd ymgysylltiad da trwy gyfarfodydd Zoom gan aelodau o bob cenhedlaeth, ond y gallai hyn newid wrth i'r nosweithiau ddechrau ymestyn. Soniodd Sarah Jones, Dŵr Cymru fod yna le i ymgysylltiad wedi'i dargedu yn ogystal â banc o negeseuon a oedd ar gael i bawb ym mhob cwr o Gymru unrhyw adeg.

21. Rhannodd Ed ei sgrin i ddangos i'r grŵp y dalgylchoedd a oedd yn cael eu targedu gan Cyswllt Ffermio, a thrafododd feysydd pryder yr oedd angen eu blaenoriaetha wrth symud ymlaen. Soniodd Ruth Johnston, CNC fod ymgyngoriadau'n cael eu cynnal yn y dalgylchoedd â blaenoriaeth ar hyn o bryd ynghylch y cynlluniau rheoli basn afon, ac ar ddiwedd y flwyddyn galendr hon, byddai'r Dalgylchoedd Cyfle yn disodli'r Dalgylchoedd â Blaenoriaeth o ran y cynlluniau rheoli basn afon. Roedd CNC yn dymuno llunio cynllun cydlynol gyda'r grŵp a oedd yn bodloni cynifer o gyfleoedd â phosibl.

22. Trafododd y grŵp bwysigrwydd cyfathrebu negeseuon cyson. Soniodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru fod yr Ymddiriedolaeth Afonydd wedi cynnal cyfres o arolygon cynefinoedd afonydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac wrth wneud hynny roedd wedi sylwi ar amrywiaeth o faterion gwahanol, gan gynnwys llygredd amaethyddol.

***PG22 Ionawr: Ed Davies, CNC i gysylltu â'r Ymddiriedolaeth Afonydd i drafod arsylwadau'r arolygon ynghylch llygredd amaethyddol.***

23. Soniodd y Cadeirydd fod angen ailedrych ar y pwnc hwn yn y cyfarfod nesaf pan fyddai cynrychiolydd o Cyswllt Ffermio'n bresennol. Yr aelodau i gysylltu ag Ed os bydd ganddynt unrhyw wybodaeth, tystiolaeth, problemau neu feysydd pryder sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn.

## Eitem 5 Gwaith Cyfathrebu Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru: Erthyglau a Chylchlythyrau

24. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid ymdrin â'r eitem hon ar yr agenda trwy negeseuon e-bost dan ofal Katy Simmons, CNC ac Ed, a hynny cyn y cyfarfod nesaf.

## Eitem 6 Diweddariad ar Sgrinio Amonia

25. Ymunodd Jeremy Walters, CNC â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ymgynghoriad GN020. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng mis Mai 2020 a diwedd mis Tachwedd 2020, a chynhaliwyd sawl cyfarfod i drafod materion a manylion technegol. Rhoddodd Jeremey amlinelliad o nifer yr ymatebion a gafwyd ac a gafodd eu grwpio mewn chwe phrif gategori: strwythur ac eglurder, mapiau, meini prawf sgrinio, gwella, yr hyn y mae'r canllawiau'n ei gwmpasu a sylwadau cyffredinol. Byddai'r ddogfen yn gyfres o dudalennau ar y we a fyddai'n tywys yr ymgeisydd trwy'r broses. Dywedodd Jeremy y byddai'r fersiwn derfynol ar y we ar gael ym mis Ebrill 2021 ar y cynharaf.

26. Gofynnodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru i Jeremy a fyddai'n bosibl gweld y dudalen we wedi'i hysgrifennu ar Betterment. Cytunodd Jeremy y gallai rannu'r wybodaeth hon cyn gynted ag y byddai wedi bod trwy'r weithdrefn lywodraethu.

27. Gofynnodd Dennis Matheson, TFA sut yr oedd hyn yn gysylltiedig â'r Ddeddf Aer Glân. Dywedodd Jeremy fod yna ymgyrch yn y Ddeddf Aer Glân i leihau amonia, ac roedd hyn yn rhan o'r pecyn i helpu i gyflawni hyn.

28. Gofynnodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru i CNC gadarnhau na fyddent yn cymhwyso'r canllawiau diwygiedig tan fis Ebrill 2021. Cadarnhaodd Jeremy nad oedd CNC yn cymhwyso'r canllawiau hyn ar hyn o bryd ac na fyddai'n gwneud hynny tan fis Ebrill 2021 ar y cynharaf.

29. Gofynnodd Fraser McAuley, CLA a fyddai modd darparu diweddariad pellach mewn cyfarfod dilynol ar y trawsnewid a datblygiad y gweithdrefnau llywodraethu, fel bod pawb yn glir ynghylch y newidiadau posibl. Cytunodd Jeremy i ddarparu diweddariadau pellach yn y cyfarfodydd dilynol.

30. Dywedodd Rachel Lewis-Davies fod NFU Cymru wedi nodi symudiad CNC tuag at ddull gweithredu ar y we, ond ei fod yn pryderu ynghylch rheoli fersiynau'r wybodaeth

ar y we a'r modd y byddai'n cael ei olrhain. Roedd NFU Cymru yn nodi bod busnesau, gan gynnwys busnesau fferm, yn gwneud penderfyniadau costus iawn ar sail yr wybodaeth a oedd yn cael ei darparu ar wefan CNC, ac roedd yn pryderu y gallai'r wybodaeth gael ei diweddaru heb i hynny gael ei gwneud yn glir. Roedd angen i CNC gael polisi ynghylch rheoli fersiynau fel ei bod yn hollol glir lle a phryd yr oedd dogfennau'n cael eu diweddaru. Roedd NFU Cymru hefyd yn nodi bod y Ganolfan Ymgynghori wedi newid yn ystod y tri i bedwar mis diwethaf i system ymatebion ar-lein, ac roedd wedi dod i'r casgliad nad oedd y dull hwn yn gweithio i fudiadau aelodaeth a oedd yn drafftio ymatebion yn seiliedig ar gyfraniadau eu haelodau ac yn cylchredeg yr ymatebion hynny i gael sylwadau.

31. Soniodd Jeremy y byddai unrhyw newidiadau i'r mapiau yn y ddogfen yn cael eu hysbysebu dri mis cyn hynny. Byddai'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth benderfynu ar unrhyw newidiadau hefyd yn cael ei harddangos.

32. Soniodd Sarah Hetherington, CNC fod yna rhai rhaglenni gwaith a oedd yn gysylltiedig ag ochr ddigidol cylch gwaith amaethyddol CNC, ac y byddai'n bwydo'n ôl y sylwadau a wnaed gan Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru ynghylch rheoli fersiynau.

***PG23 Ionawr: Sarah Hetherington a Marc Williams, CNC i gyfleu'r sylwadau ynghylch rheoli fersiynau i'r Tîm Digidol a bwydo yn ôl i'r grŵp.***

## Eitem 7 Unrhyw Fater Arall

33. Soniodd Fraser McAuley, CLA y bu rhai trafodaethau ynglŷn â pharth diogelu dŵr ar Afon Gwy, a gofynnodd pa rôl yr oedd CNC wedi'i chael yn hynny. Roedd Bob yn ymwybodol o'r trafodaethau hyn ond nid oedd wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â nhw; byddai'n ymchwilio i'r mater.

***PG24 Ionawr: Bob Vaughan, CNC i ymchwilio i'r parth diogelu dŵr ar Afon Gwy a bwydo yn ôl i'r grŵp.***

34. Soniodd Rachel Lewis-Davies am yr adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan CNC ar y ffosffadau yn afonydd yr ardaloedd cadwraeth arbennig, ac roedd yn dymuno trafod y pwnc hwn mewn cyfarfod arall, er mwyn deall y dystiolaeth a'r casgliadau.

***PG25 Ionawr: Bronwen Martin, CNC i ychwanegu eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf i drafod y ffosffadau yn afonydd yr ardaloedd cadwraeth arbennig***

35. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cyfarfod nesaf yr Is-grŵp wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun 22 Chwefror 2021.

36. Diolchodd y Cadeirydd i'r holl aelodau am gymryd rhan yn y broses o symud pethau ymlaen mewn modd mwy eglur.

## Diwedd y Cyfarfod